**LC485**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002**

O'i roi yn sylfaenol, o dan adran 214 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae'n drosedd i gorff heblaw am -

(a) prifysgol, neu

(b) corff y caniateir iddo weithredu ar ran prifysgol,

roi "gradd".

O dan adran 216(1), mae'n rhaid i gyrff sy'n dod o dan (a) a (b) uchod gael eu dynodi trwy orchymyn a wneir gan y Cynulliad. Effaith hyn yw rhoi statws terfynol iddynt at ddibenion adran 214.

Mae'r gorchymyn presennol yn dynodi'r cyrff a enwir yn yr Atodlen.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Mehefin 2002